# Prosiect Ynni Cymunedol Tref Caerfyrddin

## Asesiadau ynni rhad ac am ddim i fusnesau a sefydliadau yn nhref Caerfyrddin.

**Mynnwch gymorth gydag ymdrin â chostau ynni cynyddol.**

**Byddwch â rhan yn nhaith Tref Caerfyrddin at garbon sero net.**

Mae gan Gyngor Tref Caerfyrddin gyllid oddi wrth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer asesu'r cyfleoedd i gynnal prosiectau ynni yn y dref.

Cafodd sefydliadau Ynni Cymunedol Ynni Sir Gâr ac Ynni Teg eu penodi i ymgymryd ag asesu safleoedd yn rhad ac am ddim, nodi gweithdrefnau arbennig a datblygu cynllyn ar gyfer gweithredu.

**I wneud cais, llenwch y ffurflen isod i fynegi diddordeb.**

### Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl:

- Bydd asesydd yn ymweld â'ch safle chi i asesu'r adeilad ac arolygu defnydd ynni, a phatrymau o'i ddefnyddio ac ati.
- Caiff y wybodaeth hon ei throi yn adroddiad ynni gydag awgrymiadau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ac arbed arian.
- Gall eich asesydd egluro manylion yr adroddiad i chi ar gyfer sicrhau ei fod yn addas ac yn gwbl ddealladwy.

### I fod yn gymwys i gael asesiad rhad ac am ddim bydd angen:

- Bod â'ch safle yn nhref Caerfyrddin.
- Perchnogi, neu fod â les ddigon maith, i gyfiawnhau ceisio rheolaeth ar ynni'r adeilad.
- Bod ag unigolyn a enwir sy'n fodlon bod yn gysylltydd.
- Bod ar gael yn ystod gwanwyn/haf eleni i gymryd rhan.
- Bod ag o leiaf 12 mis o filiau ynni ar gael i fwrw golwg yn ôl drostynt.

### Amserlen:

Bydd yn rhaid archwilio'r safleoedd yn ystod Gwanwyn/haf 2024.

Mae'r niferoedd yn gyfyngedig, felly anfonwch eich mynegiant o ddiddordeb cyn gynted ag y bo modd.

## Canlyniadau:

- Bydd eich adroddiad ynni yn eich helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd yr ydych chi'n rheoli eich safle a'i ddefnydd o ynni. Er y gallid nodi rhai 'arbedion cyflym heb gost' efallai y bydd rhai camau y gellid eu cymryd yn gofyn am fuddsoddiad hefyd. Fe fyddwn ni'n tynnu sylw at unrhyw gyllid sydd ar gael i fod o gymorth gyda hynny.

- Bydd canlyniadau'r holl adroddiadau a gwblheir ar gyfer y prosiect hwn yn cael eu defnyddio gan Gyngor y Dref i wneud ceisiadau am gyllid pellach ar gyfer cefnogi'r cyflawniad.

## Sut i wneud cais:

Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb isod a'i hanfon i **judith@ynniteg.cymru**
Fe fyddwn ni'n cysylltu i gadarnhau eich rhan chi yn y prosiect ac yn trefnu i asesydd gysylltu â chi.

Am fwy o wybodaeth? Dim problem, gallwch gysylltu â ni ac fe allwn ni drafod y prosiect gyda chi.
E-bost: **judith@ynniteg.cymru** **neu ffoniwch 07848184719.**

POWERED BY LEVELLING UP

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cefnogwyd gan Supported by
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Ffurflen Mynegi Diddordeb

| Yr adeilad | |
|---|---|
| Enw'r safle | |
| Cyfeiriad llawn (yn cynnwys cod post) y safle | |
| Disgrifiad byr<br>e.e. uned fanwerthu newydd | |
| **Y busnes/sefydliad** | |
| Enw'r sefydliad | |
| Enw'r prif gysylltydd | |
| Rhif ffôn y cysylltydd | |
| E-bost y cysylltydd | |
| Math o fusnes/gweithgareddau | |
| Oriau agor/gweithio | |
| **Yr adeilad** | |
| Math o ddeiliadaeth e.e. perchnogi, ar les | |
| Os les nodwch yr amser sydd ar ôl (yn fras)? | |
| A oes cynllun/gweddlun o'ch safle ar gael? | Oes / Nac oes |
| **Defnydd ynni** | |
| Faint o arian yn fras a ydych chi'n ei wario ar drydan yn flynyddol? | £0 - £5,000<br>£5,000 - £10,000<br>£10,000 - £20,000<br>£20,000 + |
| Pa danwydd a ddefnyddir i wresogi eich adeilad? e.e. trydan, nwy, LPG | |

| | |
|---|---|
| Faint ydych chi'n ei wario yn fras ar danwydd yn flynyddol? | £0 - £5,000<br>£5,000 - £10,000<br>£10,000 - £20,000<br>£20,000 + |
| A oes gennych chi o leiaf 12 mis o filiau ynni ar gael? | Oes / Nac oes |
| A oes mesurau i arbed ynni/ gosodiadau ynni adnewyddadwy yn bodoli yn yr adeilad eisoes? Os felly, beth ydyn nhw? | |
| **Rhagor am yr adeilad (DEWISOL)** | |
| Oedran yr adeilad yn fras? | |
| Disgrifiad byr o'i adeiladwaith? E.e. carreg, brics, deunydd parod | |
| A oes atgyweirio neu uwchraddio mawr wedi bod yn ystod y deng mlynedd diwethaf? | |
| A oes unrhyw broblemau sy'n hysbys gyda strwythur yr adeilad? e.e. lleithder, y to ac ati. | |

Ar ôl ei llenwi, anfonwch yn ôl at judith@ynniteg.cymru

Bydd y wybodaeth a gesglir gennym yn cael ei defnyddio gan y sefydliadau hyn (Cyngor Tref Caerfyrddin, Ynni Sir Gar, Ynni Teg), er mwyn rhoi cyngor priodol a chefnogaeth i chi o ran rheoli ynni yn eich adeilad. Wrth arwyddo ac anfon rydych chi'n cytuno y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i'r perwyl hwn gan y sefydliadau hyn.

Wrth arwyddo'r ffurflen hon, rydych chi'n cadarnhau bod yr awdurdod gennych i gynrychioli eich sefydliad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw (Llythrennau bras) | | Sefydliad | |
| Llofnod | | Dyddiad | |